

DYDD MERCHER, 3 MAI 2023

AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR

**YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD
AML-LEOLIAD Y CYNGOR SIR A GYNHELIR YN SIAMBR, NEUADD Y
SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP AC O BELL AM 10.00 YB,
DYDD MERCHER, 10 MAI, 2023 ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A
AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM**

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:-
[HTTPS://CARMARTHESHIRE.PUBLIC-I.TV/CORE/PORTAL/HOME](https://carmarthenshire.public-tv/core/portal/home)

Swyddog Democrataidd:	Janine Owen
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	01267 224030
E-bost:	JanineOwen@sirgar.gov.uk

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD
4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)
5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y 19 EBRILL 2023 5 - 14
6. RECRIWTIO I SWYDD PENNAETH SEILWAITH YR AMGYLCHEDD (PENODIAD PARHAOL) 15 - 38
7. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

7.1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR SEAN REES A MICHAEL CRANHAM

“Mae 9863 o bobl sydd wedi goroesi strôc yn byw yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ac mae 47% o'r rheiny'n byw yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Gymdeithas Strôc wedi darparu 'Gwasanaeth Goroesi Strôc' ar draws tair ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda ers dros ddegawd.

Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r cyllid ar gyfer hyn hyd yma wedi bod drwy'r Bwrdd Iechyd ac yna mae'r Cyngor Sir wedi bod yn ychwanegu at y swm hwn. Bellach mae'r Cyngor Sir wedi newid ei gyfraniad ariannol er mwyn canolbwyntio'n fwy ar atal strôc.

Ar gyfer 2023/24, mae'r Gymdeithas Strôc wedi cael gwybod y byddant yn cael yr un dyraniad cyllid â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol, ac felly ni fydd hyn yn cynnwys unrhyw arian ychwanegol i dalu am y cronfeydd a ddarparwyd yn y gorffennol gan yr Awdurdod Lleol. Yn ogystal, mae'r holl wasanaethau eraill ar gyfer bywyd ar ôl cael strôc a gomisiynwyd ledled Cymru yn cael eu hariannu'n llawn gan y Byrddau Iechyd.

Felly rydym fel Cyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn i Fwrdd Iechyd Hywel Dda roi sicrwydd ar frys i'r rhai sydd wedi goroesi strôc, eu teuluoedd, a'u gofalwyr, na fydd unrhyw effaith ar ddarparu'r 'Gwasanaeth Goroesi Strôc' yma yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.”

8. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

9. CYFLWYNO DEISEB

Nodyn: Er mwyn cael eu hystyried mewn cyfarfod ffurfiol rhaid i bob deiseb gynnwys 50 o lofnodion etholwyr cofrestredig ar gyfer copïau papur a 300 o lofnodion etholwyr cofrestredig ar gyfer e-ddeisebau. Mae cyfanswm Llofnodion Etholiadol Sir Gaerfyrddin hyd at y trothwy o 50 wedi'u dilysu. Nid ydym wedi gwirio'r llofnodion wedi hynny.

“Rydym ni'r rhai sydd wedi llofnodi isod yn gofyn am weithredu ar unwaith gan Gyngor Sir Gaerfyrddin i gynllunio, ariannu ac adeiladu toiledau yn Nwyrain Harbwr Porth Tywyn a Gorllewin Harbwr Porth Tywyn. Deiseb i ddatrys absenoldeb toiledau cyhoeddus digonol a hygyrch yn Harbwr Porth Tywyn.”

10. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

11. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

**11 .1 Y PWYLLGOR SAFONAU - 14EG CHWEFROR 2023
[YN CYNNWYS CYFARFODYDD A AILYMGYNHALIWYD 15
CHWEFROR 2023 A 12 EBRILL 2023]**

11 .2 PWYLLGOR PENODI AELODAU - 30 MAWRTH 2023

11 .3 Y PWYLLGOR TRWYDDEDU - 4 EBRILL 2023

**11 .4 PWYLLGOR CRAFFU LLEOEDD, CYNALIADWYEDD A
NEWID HINSAWDD - 14 EBRILL 2023**

**11 .5 PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL - 17 EBRILL 2023**

**11 .6 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC
ADFYWIO - 5 EBRILL 2023**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

DYDD MERCHER, 19 EBRILL 2023

PRESENNOL Cyngorydd R.E. Evans (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	K.V. Broom	J.M. Charles	P. Cooper
C.A. Davies	B. Davies	G. Davies	H.L. Davies
K. Davies	L. Davies	T. Davies	L.D. Evans
N. Evans	W.T. Evans	S. Godfrey-Coles	T.M. Higgins
P.M. Hughes	P. Hughes-Griffiths	M. James	G.H. John
D. Jones	H. Jones	A. Lenny	A. Leyshon
M. Palfreman	D. Price	E. Rees	B.A.L. Roberts
E. Skinner	D. Thomas	E.G. Thomas	G.B. Thomas
M. Thomas	J. Tremlett	A. Vaughan Owen	

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

L.R. Bowen	M.D. Cranham	D.M. Cundy	S.A. Curry
A. Davies	W.R.A. Davies	T.A.J. Davies	C. Davies
L.M. Davies	S.L. Davies	M. Donoghue	A. Evans
D.C. Evans	A.D. Harries	J.P. Hart	J.K. Howell
J.D. James	R. James	J.P. Jenkins	B.W. Jones
A.C. Jones	G.R. Jones	M.J.A. Lewis	N. Lewis
K. Madge	A.G. Morgan	D. Owen	B.D.J. Phillips
S.L. Rees	E.M.J.G. Schiavone	J. Seward	H.B. Shepardson
F. Walters	D.E. Williams		

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

W. Walters, Prif Weithredwr
 C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
 J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
 G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
 A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
 P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
 L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
 G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
 L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
 R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
 E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau
 S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
 N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh a Pholisi Corfforaethol

Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 12.20 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr H.A.L. Evans, D. Nicholas, R. Sparks, P.T. Warlow a J. Williams.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
S.L Davies	10.1 - Polisi Cartrefi Gwag - Ein Dull o Ddefnyddio Cartrefi Gwag Unwaith Eto.	Yn berchen ar eiddo gwag.
S.L Davies	12.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, Edward Thomas, Rob James a John James.	Yn Swyddog Datblygu Trafnidiaeth ar gyfer Dolen Teifi.
M. Palfreman	9 - Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin: Y Sir Gâr a Garem.	Mae ganddo ymgynghoriaeth gofal cymdeithasol.
F. Walters	12.1 - Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorwyr Edward Thomas ac Arwel Davies.	Yn cael ei gyflogi gan Fanc Barclays ac mae ganddo gysylltiadau agos a gyflogir yng nghanen Llandeilo.
K. V. Broom	10.1 - Polisi Cartrefi Gwag - Ein Dull o Ddefnyddio Cartrefi Gwag Unwaith Eto.	Yn berchen ar eiddo a ddefnyddir fel llety gwyliau.
M. James	10. 1 - Polisi Cartrefi Gwag - Ein Dull o Ddefnyddio Cartrefi Gwag Unwaith Eto.	Yn debygol o etifeddu tŷ a allai fod yn wag yn ystod cyfnod yr eiddo.
D.E. Williams	Polisi Cartrefi Gwag - Ein Dull o Ddefnyddio Cartrefi Gwag Unwaith Eto.	Yn meddu ar gyfran yn nhŷ ei ddiweddar fam.
S.A. Curry	Polisi Cartrefi Gwag - Ein Dull o Ddefnyddio Cartrefi Gwag Unwaith Eto.	Yn berchen ar dŷ gwyliau.

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'i Gydymaith, y Cynghorydd Nysia Evans, wedi cael y pleser o fynd i nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys Prosiect Denu Twristiaid newydd Pentywyn.

4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd wedi cael gwybod am unrhyw gyhoeddiadau.

5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y CYNGOR CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y :-

5.1. 1AF MAWRTH 2023

Nodwyd y dylai datganiad o fuddiant y Cynghorydd K. V. Broom ar gyfer eitem 5.1, Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 (sef bod ei ferch yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol), gael ei briodoli i K. Madge.

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2023 yn gofnod cywir, yn amodol ar y newid uchod.

5.2. 8FED MAWRTH 2023

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2023 yn gofnod cywir, yn amodol ar gynnwys y Cynghorydd S. L. Davies yn y rhestr o ymddiheuriadau.

6. YSTYRIED YR ENWEBIADAU AR GYFER SWYDD CADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2023-24

PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorydd B.A.L. Roberts yn Ddarpar Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24.

7. YSTYRIED YR ENWEBIADAU AR GYFER SWYDD IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2023-2024

PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorydd H.L. Davies yn Ddarpar Is-gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24.

8. PENODI PERSON LLEYG I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO.

PENDERFYNWYD, er mwyn bodloni gofyniad Cyfansoddiad y Cyngor, fod y Cyngor Sir yn penodi Karen Jones yn Aelod Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer y cyfnod rhwng 19 Ebrill 2023 a 18 Ebrill 2028.

9. CYNLLUN LLESIANT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR GAERFYRDDIN: Y SIR GÂR A GAREM

[Noder: Roedd y Cynghorydd M. Palfreman wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a chaniatawyd gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad, ac arhosodd yn y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried].

Cafodd y Cyngor adroddiad gan Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd yn cyflwyno cynllun terfynol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w ystyried a'i gymeradwyo gan bedwar aelod statudol y Bwrdd (Cyngor Sir Caerfyrddin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda,

Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru).

Dyweddodd yr Arweinydd fod gan y Bartneriaeth hanes hir a llwyddiannus o weithio mewn partneriaeth a hybu diwylliant cadarnhaol o gydweithio a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i'r cymunedau lleol.

Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin wedi cynnal asesiad llesiant manwl o lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y sir. Defnyddiwyd yr asesiad, ynghyd â chyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu, i nodi amcanion llesiant Sir Gaerfyrddin a'r camau gweithredu i wneud cynnydd mewn perthynas â'r amcanion hynny. Roedd yr amcanion a'r camau gweithredu a nodwyd fel rhan o'r Cynllun yn canolbwyntio ar feysydd gweithredu ar y cyd y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddylanwadu arnynt drwy gydweithio ac felly nid oeddent yn copïo'r hyn a ystyriwyd yn fusnes craidd y cyrff unigol a oedd yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus oni bai bod gwerth ychwanegol i'w gael wrth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gydweithio.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at y pum amcan llesiant allweddol a fyddai'n ganolbwynt dros y blynyddoedd nesaf:

- Sicrhau economi gynaliadwy a chyflogaeth deg
- Gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur
- Trechu tlodi a'i effeithiau
- Helpu i greu cymunedau diogel, amrywiol, dwyieithog.

Nodwyd y byddai'r Cynllun wedyn yn cael ei fabwysiadu gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod ar 25 Ebrill i'w gyflawni o fis Mai 2023 ymlaen.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i gyn-Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Barry Liles o Brifysgol y Drindod Dewi Sant a Choleg Sir Gâr, a chydnabod ei gyfraniad. Cyn rhoi'r gorau i'w rôl fel Cadeirydd ym mis Gorffennaf y llynedd, roedd Barry wedi bod yn Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ers ei sefydlu yn 2016 ac wedi darparu arweinyddiaeth gref wrth ddatblygu'r Bwrdd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin 2023-2028.

10. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN Y MATER CANLYNOL:

10.1. POLISI CARTREFI GWAG - EIN DULL O DDEFNYDDIO CARTREFI GWAG UNWAITH ETO

[Noder: Roedd y Cynghorwyr S.L. Davies, K.V. Broom, M. James, D.E. Williams a S.A. Curry wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ac wedi aros yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ynghylch yr eitem hon a'r bleidlais ddilynol].

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2023 (gweler cofnod 8), wedi ystyried adroddiad a oedd yn cyflwyno'r Polisi Cartrefi Gwag sy'n nodi gweledigaeth a rhaglen waith y Cyngor wrth fynd i'r afael â chartrefi preswyl preifat gwag yn y sir am y tair blynedd nesaf. Roedd yr adroddiad yn darparu cyfeiriad clir ar y dull gweithredu a lle y byddai ymdrechion yn canolbwyntio er mwyn cyflawni hyn a nodau polisi eraill.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod cartrefi gwag yn adnodd wedi'i wastraffu pan oedd prinder tai ledled y sir, gan gynnwys mewn wardiau gwledig. Nodwyd bod yr eiddo hyn yn anharddu'r gymdogaeth a gallent fod yn ganolbwynt ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Roedd y Cyngor wedi ymrwymo i ddefnyddio cartrefi gwag unwaith eto cyn gynted â phosibl ac roedd wedi gweithio gyda pherchnogion cartrefi gwag a phartneriaid i fanteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael i helpu i fynd i'r afael â mater eiddo gwag tymor hir.

Dywedodd Aelodau'r Cabinet y gallai defnyddio cartrefi gwag unwaith eto helpu i fynd i'r afael â nifer o faterion tai a materion cymdeithasol drwy gynyddu'r cyflenwad mewn ardaloedd lle'r oedd prinder tai a phwysau o ran tai a lle'r oedd cyfleoedd i gysylltu â phrosiectau adfywio eraill.

Mae'r Polisi yn nodi'r dull gweithredu a byddai'n caniatáu i swyddogion dargedu rhai mathau o eiddo, mewn rhai ardaloedd, a byddai'n rhoi eglurder a hyder ynghylch unrhyw gamau a gymerir.

Yn ogystal, nodwyd bod cynnydd wedi'i wneud dros y pum mlynedd diwethaf i leihau nifer y cartrefi gwag yn gyffredinol drwy weithgarwch parhaus a chamau i annog/gorfodi perchnogion tai i'w defnyddio unwaith eto. Y nifer presennol a nodwyd oedd 1,984 (Medi 2022). Mae hyn yn cyfateb i tua 2.1% o'r stoc dai gyffredinol yn y sir.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch yr amserlenni ar gyfer defnyddio eiddo gwag y Cyngor, dywedodd yr Aelod Cabinet fod yr amserlenni yn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar gyflwr yr eiddo. Nodwyd bod yr amserlenni wedi lleihau'n sylweddol.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y defnydd posibl o gartrefi ar ffurf pod sy'n cael eu treialu ar hyn o bryd gan Gyngor Casnewydd, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod yr Awdurdod wedi ystyried yr ateb hwn, fodd bynnag, ffeirir darparu cartrefi parhaol i drigolion ac mae podiau ond yn addas i fyw ynddynt yn y tymor byr iawn.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:-

- **cymeradwyo'r Polisi Cartrefi Gwag - "Ein Dull o Ddefnyddio Cartrefi Gwag Unwaith Eto".**
- **cytuno ar y weledigaeth i leihau nifer yr eiddo gwag yn y sir i 1500 erbyn 2026.**
- **cadarnhau bod y math o eiddo a'r matrices sgorio a ddefnyddir o ran eiddo gwag yn bodloni nodau'r polisi.**

- cadarnhau bod y Polisi Cartrefi Gwag yn cyd-fynd â phenderfyniad y Cyngor i osod Premiymau'r Dreth Gyngor ar eiddo gwag tymor hir a'r ffordd y caiff hyn ei orfodi drwy'r polisi hwn.
- cytuno bod y mesurau perfformiad yn gyson ac yn adlewyrchu'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud i ddefnyddio cartrefi gwag unwaith eto.

11. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y :-

11.1. 13EG MAWRTH 2023

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2023.

11.2. 27AIN MAWRTH 2023

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2023.

12. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

12.1. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR EDWARD THOMAS A ARWEL DAVIES

[Noder: Gan i'r Cyngorydd F. Walters ddatgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ynghylch yr eitem hon a'r bleidlais ddilynol].

Ystyriodd y Cyngor y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cyngorwyr Edward Thomas ac Arwel Davies:-

“Mae'r Cyngor hwn yn gresynu at benderfyniad Banc Barclays i gau cangen Llandeilo ar 23 Mehefin. Mae'r penderfyniad hwn yn gadael rhan fawr o'r sir heb gyfleusterau bancio. Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i Barclays adolygu eu penderfyniad neu o leiaf ddarparu opsiynau amgen digonol i gwsmeriaid ymdrin â'r banc.”

Eiliwyd y Cynnig.

Rhodddwyd cyfle i gynigwyr ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

PENDERFYNODD y Cyngor gefnogi'r Cynnig.

12.2. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR HEFIN JONES, EDWARD THOMAS, ROB JAMES A JOHN JAMES

[Noder: Gan i'r Cyngorydd S.L. Davies ddatgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ynghylch yr eitem hon a'r bleidlais ddilynol].

Ystyriodd y Cyngor y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cyngorwyr Hefin Jones, Edward Thomas, Rob James a John James:-

“Mae'r Cyngor hwn:

1. Yn gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried ei sefyllfa i roi terfyn ar y cymhorthdal o ran y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau a'i ymestyn hyd nes bod gwasanaethau wedi cael eu hailstrwythuro'n briodol, a sicrhau na chaiff unrhyw ardal ei gadael heb fynediad rhesymol i drafnidiaeth gyhoeddus.
2. Hefyd, mae'n gofyn i gamau brys gael eu cymryd ar y cyd â'r awdurdod lleol hwn i flaenoriaethu buddsoddiad a gweithredu gwasanaethau bysiau a arweinir gan y galw (gwasanaethau megis bwcbabus a galw a theithio) yn yr ardaloedd hynny y bydd colli'r cymhorthdal hwn yn effeithio arnynt, gan wneud hyn mewn modd strategol a hyblyg gan alinio'r ddarpariaeth gyda'r galw.
3. Yn nodi mai nod Cynllun a Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gyfer Bws Cymru yw darparu gwasanaeth bws a fydd yn cael ei reoli a'i gynllunio er budd pennaf pobl Cymru ac yn gofyn bod dyddiad dechrau'r cynllun yn cael ei ddwyn ymlaen.”

Eiliwyd y Cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigwyr ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

PENDERFYNODD y Cyngor gefnogi'r Cynnig.

13. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD:-

13.1. CWESTIWN GAN Y PARCH ANGHARAD GRIFFITH I'R CYNGHORYDD GLYNOG DAVIES, AELOD Y CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG:-

“Gan fod cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n cael diagnosis swyddogol o Anhwylder Osgoi Galwadau Patholegol (PDA), yn rhan o'r proffil Awtistig, a allaf ofyn:-

Pa gynlluniau/strwythurau sydd eisoes ar waith gyda chi yn yr Adran Addysg i sicrhau tegwch addysgol tymor hir a thymor byr i'r plant a pha adnoddau, hyfforddiant a dealltwriaeth sydd gennych ar waith i chi, sef staff yr Adran Addysg, staff mewn ysgolion a chanolfannau ac, yn wir, y Cyngor?”

Ymateb gan y Cyngorydd Glynog Davies, yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg:-

Rwy'n sylweddoli bod gennych bryder mawr yn y maes hwn. Mae'n fater cymhleth iawn ac rydych chi'n gwybod hynny ac mae llawer ohonom yn ymwybodol o hynny. Mae'n gwestiwn pwysig iawn ac mae'n gwestiwn personol i chi a hoffwn ddweud fy mod yn falch iawn bod y cyflwr hwn yn cael ei gydnabod.

Os ewch chi'n ôl ychydig flynyddoedd, byddai label "plant drwg" wedi ei roi ar y rhai sydd bellach yn awtistig. Rydym wedi symud ymlaen yn sylweddol ers hynny. Mae cynhwysiant a sicrhau'r gorau i bob dysgwr, ac rwyf am bwysleisio hynny – i bob dysgwr - yn ein sir, yn flaenoriaeth i ni. Mae'n flaenoriaeth rydym yn ei hystyried yn rheolaidd yn yr Adran Addysg. Mae'r un mor bwysig i ni ddiweddarau ein gwybodaeth ein hunain, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn darparu'r gorau. Mae gwybodaeth yn y maes hwn yn newid yn rheolaidd ac rydym yn dysgu amdano drwy'r amser ac mae ein dealltwriaeth yr un mor bwysig. Sut mae mynd ati i ymateb i'r newyddion a gawn. Rwy'n deall, yn ôl Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, fod PDA yn broffil i ddisgrifio'r rhai lle mai'r prif nodwedd yw eu bod yn osgoi disgwyliadau a thasgau. Mae gennym well dealltwriaeth o hyn drwy'r amser. Mae'n broffil ar y sbectrwm ei hun. Mae'n rhaid i chi gofio bod y sbectrwm awtistig yn un cymhleth ac eang iawn ond mae'r hyn rydym ni'n ei drafod nawr, sef PDA, yn broffil ar y sbectrwm awtistig. Mae'r plant a'r bobl ifanc yn osgoi gofynion o ddydd i ddydd. Maen nhw'n defnyddio strategaethau fel rhan o'r osgoi hwn os mynnwch chi. Mae unigolion â PDA yn rhannu nodweddion awtistig, sef yr hyn sy'n gyfarwydd i lawer ohonom, ond mae ganddynt hefyd lawer o nodweddion eraill sy'n berthnasol i'r proffil PDA hwn. Felly, gyda'r dysgwyr hyn, mae'n rhaid i ni weithio mewn ffordd wahanol iawn ac mae dulliau cydweithredol o addysgu a thasgau pob dydd cyffredin yn llawer mwy effeithiol wrth weithio gyda nhw fel unigolion. Mae'n rhaid i mi bwysleisio bod PDA yn ddiagnosis cymharol newydd, ac rydym yn gwybod hynny, ond er ei fod yn newydd, mae Sir Gaerfyrddin wedi codi ymwybyddiaeth ohono ac rwyf am bwysleisio hynny. Rydym wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o'r cyflwr hwn. Mae hyfforddiant sy'n cynnwys PDA yn bwysig iawn ac mae bellach wedi'i gynnwys yn narpariaeth hyfforddiant yr Awdurdod. Roedd yn rhaid i ni roi llawer o gamau ar waith ar unwaith i wneud yn siŵr ein bod ni'n ymwybodol o'r cyflwr a sut i addasu ein ffordd o weithio. Erbyn hyn, mae holl ysgolion y sir yn ymwybodol o PDA, er ei fod yn eithaf newydd a'i fod yn rhan o'r sbectrwm awtistig. Darperir hyfforddiant a rhoddwyd yr hyfforddiant i'r rhai sy'n cydlynu Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae'r wybodaeth honno ar gael i holl staff ein hysgolion. Rydym yn rhannu'r wybodaeth hon ar ein systemau rhannu gwybodaeth. Roedd gennym arbenigwr, Laura Kirby, i ddarparu modiwlau penodol i ni ac mae hyn i gyd ar gael ar-lein, ac mae fideos wedi'u paratoi ac maent ar gael hefyd i gefnogi disgyblion â PDA. Gall ein hysgolion hefyd ofyn am gyngor arbenigol pellach gan ein Seicolegwyr os ydynt yn dymuno. Mae gennym Swyddogion Cymorth Ymddygiad ac maent yn darparu cymorth i'n staff, ac mae gennym Athrawon Ymgynghorol ar gyfer Awtistiaeth sy'n arbenigwyr yn y maes hwn. Pan fyddwn yn penodi staff i weithio ym maes awtistiaeth, mae'n rhaid iddynt feddu ar ddealltwriaeth benodol o PDA a sut i roi strategaethau ar waith. Yn aml iawn, rydym yn cyfeirio ysgolion at yr adnoddau gan y Gymdeithas PDA. Rwyf wedi edrych ar ei gwefan ac mae'n ardderchog, ac mae'n werth ei darllen. Mae'n faes sy'n gallu bod mor gymhleth ac rwy'n sylweddoli bod gan rieni bryder mawr am hyn ac rydym am gydweithio gyda rhieni drwy rannu gwybodaeth os yw'n bosibl. Yn aml iawn, efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio i un dysgwr yn addas i ddysgwr arall, felly mae'n rhaid i ni drafod yn ofalus iawn. Dros y flwyddyn academaidd nesaf, byddwn yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o PDA a bydd hyn yn hyfforddiant pellach. Mae'n rhaid i'r broses rhannu gwybodaeth hon ddigwydd yn barhaus wrth i ni ddysgu mwy a deall mwy, a byddwn yn rhannu'r holl wybodaeth honno gyda'r Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgolion. Gwneir hyn drwy'r Fforwm Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rwyf am bwysleisio unwaith eto ein bod yn gwneud ein gorau glas i sicrhau tegwch addysgol i'n holl ddysgwyr ond

mae croeso i chi, fel unrhyw riant arall, ymgysylltu â ni fel sir os oes gennych bryder penodol rydych chi am fynd i'r afael ag ef.

Cwestiwn Atodol gan y Parch. Angharad Griffiths:-

Sut gallwn ni symud ymlaen, fel adran a rhieni, i sicrhau bod llai o fethiannau a llai o fethiannau mewn perthynas â'n plant yn y system addysg bresennol os gwelwch yn dda?

Ymateb gan y Cynghorydd Glynog Davies, Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, i'r cwestiwn atodol:-

Rydw i'n wir yn cydymdeimlo â chi yn bersonol, ac mae'n siŵr ein bod ni fel Cyngor yn wir yn cydymdeimlo â chi. Yr unig beth y gallaf ei warantu o ran popeth rydym yn ei ddysgu a'r datblygiadau diweddaraf am y cyflwr hwn yw ein bod yn derbyn y wybodaeth ac rydym yn ei deall, ac yna rydym yn rhannu'r wybodaeth honno. Os ydych chi'n gweld unrhyw wendid mewn unrhyw ran o'r hyn rydym ni'n ei gynnig ar hyn o bryd, fel y dywedais yn gynharach, rwy'n awyddus iawn i glywed am hynny.

Byddwn yn croesawu'n fawr unrhyw sylwadau pellach sydd gennych. Gallaf roi fy ngair i chi y byddaf i a'r Cyfarwyddwr yn cwrdd â chi ac unrhyw riant arall i drafod eich pryderon. Alla i ddim dweud mwy na hynny, ond rydym yn dysgu mwy a mwy am y cyflwr drwy'r amser ac rydym yn rhannu'r wybodaeth honno.

14. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OES DIM WEDI DOD I LAW):-

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan yr Aelodau.

15. CYMARADWYO Y NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU

PENDERFYNWYD:-

- 15.1 Penodi'r Cynghorydd A. Leyshon i gymryd lle'r Cynghorydd J.D. James ar y Pwyllgor Cynllunio.
- 15.2 Penodi'r Cynghorydd R.E. Evans i gymryd lle'r Cynghorydd J. Seward ar y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- 15.3 Penodi'r Cynghorydd M. Thomas i gymryd lle'r Cynghorydd N. Evans ar y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio.
- 15.4 Penodi'r Cynghorydd H. Jones i gymryd lle'r Cynghorydd L.M Davies ar y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg.

16. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar yr agenda o dan 16.1 – 16.14 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

CHAIR

DATE

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Y CYNGOR SIR

10 MAI 2023

RECRIWTIO I SWYDD PENNAETH SEILWAITH YR AMGYLCHEDD (PENODIAD PARHAOL)						
Yr Argymhellion / Penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:						
Bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r Proffil Swydd a Manyldeb y Person yn ogystal â'r hysbyseb swydd ar gyfer y swydd Pennaeth Seilwaith yr Amgylchedd.						
Rhesymau:						
Er mwyn cydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor, ac i gydymffurfio â diwygiadau i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014, fel y mae wedi'i nodi yn yr adroddiad cryno.						
<table style="width: 100%; border: none;"> <tr> <td style="width: 50%;">Angen i'r Cabinet gwneud penderfyniad:</td> <td style="width: 50%;">Na</td> </tr> <tr> <td>Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad:</td> <td>Oes</td> </tr> </table>			Angen i'r Cabinet gwneud penderfyniad:	Na	Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad:	Oes
Angen i'r Cabinet gwneud penderfyniad:	Na					
Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad:	Oes					
Aelodau'r Cabinet sy'n gyfrifol am y Portffolio:						
Y Cyng. Ann Davies Y Cyng. Aled Vaughan-Owen Y Cyng. Edward Thomas						
Y Gyfarwyddiaeth: Prif Weithredwr	Swydd:	Rhifau Ffôn / Cyfeiriadau Ebst:				
Awdur yr Adroddiad: Paul Thomas	Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl)	01267 246123 PRThomas@sirgar.gov.uk				

EXECUTIVE SUMMARY

COUNTY COUNCIL

10TH MAY 2023

RECRUITMENT TO THE POST OF HEAD OF ENVIRONMENTAL INFRASTRUCTURE (PERMANENT APPOINTMENT)

1. Background

Following the appointment to the post of Director of Place and Infrastructure in November 22, the Authority has now had the opportunity to review the effectiveness of the current interim arrangements that have been in place, together with the succession planning consideration following the impending retirement of the Head of Transportation and Highways in September this year.

Discussions have been held between the Chief Executive, Director of Place and Infrastructure, Corporate Management Team colleagues and Cabinet Members, to consider the way forward for the service, with a view to regularising the current interim arrangements and to provide a more cohesive and integrated service model that is fit for the future, as well as helping to deliver savings to the Authority.

Judicious consideration has been given to how an effective service can be delivered, and in consultation with the officers and elected members referred to above, the current posts of Head of Transportation and Highways, and Head of Waste and Environmental Services will be amalgamated, to create one post of Head of Environmental Infrastructure. The duties of which are included in the enclosed Job Profile. The supporting staffing structures below this post will then be realigned to provide the support required, once the new Head of Service

The appointment to a Chief Officer post where the salary is £100,000 or more, is governed by the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) (Amendment) Regulations 2014. This is reflected in the Authority's Pay Policy for 2023/24. The Regulations require that a "relevant body" ie the County Council:

"draw up a statement specifying—(i) the duties of the officer concerned, and (ii) any qualifications or qualities to be sought in the person to be appointed; (b) make arrangements for the post to be publicly advertised in such a way as is likely to bring it to the attention of persons who are qualified to apply for it; and (c) make arrangements for a copy of the statement mentioned in paragraph (a) to be sent to any person on request."

2. Recommendations

In accordance with these Regulations, it is recommended that County Council approve:

- 2.1 the enclosed Job Profile and Person Specification
- 2.2 the job advert.

Detailed report attached?

No, however the following documents are attached as appendices:
Appendix A - Job Profile and Personal Specification for Head of Environmental Infrastructure
Appendix B - Job Advert for Head of Environmental Infrastructure.

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report.

Signed: Paul Thomas, Assistant Chief Executive (People Management & Performance)

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
YES	YES	YES	NONE	YES	YES	NONE

1. Policy, Crime & Disorder and Equalities – In accordance with the Council’s Constitution and Policy Framework.

2. Legal – As above, and also in accordance with the revisions to the Local Authorities (Standing Orders)(Wales) (Amendment) Regulations 2014.

3. Finance.
The salary for the Head of Environmental Infrastructure is in accordance with the County Council’s agreed 23/24 Pay Policy Statement and is within the current budgeted salary. Any net costs of the recruitment process and interim arrangements will be met from departmental reserves.

5. Risk Management – Failure to make provision to discharge the functions contained within this departmental portfolio, efficiently and effectively would place the authority at risk.

6. Staffing Implications – In accordance with the Council’s Constitution and Policy Framework.

CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below:

Signed: Paul Thomas, Assistant Chief Executive (People Management & Performance)

- 1.County Council
- 2.Corporate Management Team
- 3.Scrutiny Committee – N/A
- 4.Local Member(s) – N/A
- 5.Community / Town Council – N/A
- 6.Relevant Partners – N/A
- 7.Staff Side Representatives and other Organisations – N/A

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information
List of Background Papers used in the preparation of this report:

1. Local Authorities (Standing Orders) (Wales) (Amendment) Regulations 2014.
2. Pay Policy Statement 2023/24

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



Proffil Swydd/Job Profile

Teitl y Swydd – Pennaeth Seilwaith
Amgylcheddol
Post Title – Head of Environmental
Infrastructure

Adran	Yr Adran Lle a Seilwaith
Department	Department of Place and Infrastructure

Is-Adran/Adain	Seilwaith Amgylcheddol
Division/Section	Environmental Infrastructure

Gradd/Grade	Pennaeth y Gwasanaeth
-------------	-----------------------

Rhif y Swydd/Post Number	002655
--------------------------	--------

Paratowyd Gan/Prepared By	Y Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith/Director of Place & Infrastructure
---------------------------	--

Dyddiad/Date	Ebrill 2023/April 2023
--------------	------------------------

Prif Ddiben y Swydd

